WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 557A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anthony Veale, Andrew Doughton, John Dwight a thîm archwilio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a chyflwyno adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 12 |
| Mae dull cyffredinol y Bwrdd Iechyd o lywodraethu wedi datblygu yn ystod y flwyddyn, ond nid yw'n ddigon cadarn eto i roi sicrwydd y gellir cyflawni'r newidiadau strategol i wasanaethau sydd eu hangen yn effeithiol ac o fewn amserlen briodol | 12 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu ei drefniadau cyflenwi, ond nid yw'r broses o foderneiddio a newid yn cadw'n wastad â'r pwysau sy'n ei wynebu eto | 16 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13 ac mae cynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy yn cael eu datblygu o hyd | 22 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 25 |
| Ffi archwilio | 26 |
| Modiwl gwybodaeth reoli'r asesiad strwythuredig | 27 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2012.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 y Bwrdd Iechyd, ac rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Mae'r materion hyn yn ymwneud â llofnodi cytundebau â darparwyr eraill y GIG, gan roi cyfrif am gostau hawliadau gofal iechyd parhaus, ôl-weithredol, a datblygiadau sy'n ymwneud â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**6.** Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw at yr arian ychwanegol a gafodd y Bwrdd Iechyd, yn bennaf er mwyn ei alluogi i gyflawni ei dargedau ariannol.

**7.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar ddiwedd 2011-12, o ganlyniad i £3.9 miliwn o gyllid anghylchol ychwanegol a gafodd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012. Arian o 2012-13 yw'r cyllid ychwanegol a gafwyd a chaiff ei ddychwelyd drwy ddidynnu swm cyfartal o'r arian a ddyrannwyd i'r flwyddyn honno.

**8.** Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- bod amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd yn lleihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol;
- bod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod rhai meysydd i'w gwella.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig, gyda phwyslais penodol ar gadernid fframwaith sicrwydd cyffredinol y sefydliad;
- gwaith defnydd adnoddau drwy'r asesiad strwythuredig, a'm rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol;
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol.

**10.** Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol.

**11.** Mae dull cyffredinol y Bwrdd Iechyd o lywodraethu wedi datblygu yn ystod y flwyddyn, ond nid yw'n ddigon cadarn eto i roi sicrwydd y gellir cyflawni'r newidiadau strategol i wasanaethau sydd eu hangen yn effeithiol ac o fewn amserlen briodol:

- er bod y trefniadau llywodraethu a sicrwydd wedi'u gwella dros y 12 mis diwethaf, mae lle o hyd i'w hatgyfnerthu ymhellach;
- er bod dull rheoli strategol y Bwrdd Iechyd yn gwella, nid yw'n ddigon effeithiol eto i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen o fewn yr amserlen ofynnol.

**12.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu ei drefniadau cyflenwi, ond nid yw'r broses o foderneiddio a newid yn cadw'n wastad â'r pwysau sy'n ei wynebu:

- model rheoli ardaloedd y Bwrdd Iechyd yw'r opsiwn a ffefrir ganddo a dylai helpu i sicrhau gwelliannau, ond ceir meysydd lle y gall fod angen datganoli mwy o rym ac atebolrwydd;
- gwelwyd nifer o welliannau o ran y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, ond mae angen cyflymu'r newidiadau; a
- mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn ystod y flwyddyn wedi dangos rhai datblygiadau cadarnhaol, yn ogystal â rhai meysydd penodol sydd angen eu gwella.

**13.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13 ac mae cynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy yn cael eu datblygu o hyd

- mae adroddiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu'n gywir y trafodion yn ystod y flwyddyn;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn heb gael incwm ychwanegol neu gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol ei fyrddau a'i ymddiriedolaethau iechyd sy'n ddarparwyr ac, yn y byrdymor, ar amseroedd aros cleifion;

- mae nifer fawr o gynlluniau adfer ariannol wedi'u cofrestru fel arbedion posibl yn ystod y flwyddyn ond mae rhaglenni clir i gyflawni'r rhain, er mwyn sicrhau'r manteision tymor hwy, yn dal i gael eu datblygu.

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Gweithredol

**14.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 4 Rhagfyr 2012 ac wedyn fe'i cyflwynir i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogaf y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**15.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**16.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r Bwrdd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Mis Hydref 2012.

**17.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**18.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**19.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1, ynghyd â'r casgliadau o'm gwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig.

**20.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**21.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad ar gyfer 2012.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**22.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**23.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**24.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**25.** Wrth wneud y gwaith hwn, rwyf hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a chyflwyno adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**26.** Yn fy marn i, roedd y wybodaeth a roddwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn hawdd ei deall. Llwyddwyd i gynnal ansawdd da y datganiadau ariannol drafft eleni. Nodwyd nifer fach o ddiwygiadau yn gynnar yn ystod yr archwiliad, ond i ryw raddau, mae hyn i'w ddisgwyl, am fod y terfynau amser cyflwyno yn dod yn fwyfwy heriol.

**27.** Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 31 Mai 2012. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Cytundebau â darparwyr gofal iechyd | Roedd nifer o gytundebau â darparwyr gofal iechyd nad oeddent wedi'u llofnodi gan un o'r partïon neu'r ddau barti.<br>Er fy mod yn cydnabod bod telerau'r cytundebau yn cael eu bodloni, mae risg y bydd yn anodd datrys unrhyw anghydfodau ffurfiol o fewn cytundeb ffurfiol a lofnodwyd. |
| Darpariaethau a rhwymedigaeth wrth gefn ar gyfer hawliadau gofal iechyd parhaus, ôl-weithredol | Nododd y profion archwilio rai anghysondebau rhwng cofnodion y tîm prosiect canolog i Gymru gyfan a chofnodion y Bwrdd Iechyd.<br>Er fy mod yn fodlon bod y symudiadau cyffredinol ym malansau'r darpariaethau a'r rhwymedigaeth wrth gefn yn rhesymol ar gyfer 2011-12, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn yn ystod 2012-13. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 2011-12 oedd y flwyddyn gyntaf y bu'n ofynnol llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cynhwyswyd canllawiau ar gynnwys y datganiad yn Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru a chyhoeddwyd 'templed' enghreifftiol i helpu cyrff y GIG i'w lunio.<br>Cadarnhaodd fy adolygiad o ddatganiad y Bwrdd Iechyd fod y cynnwys yn cyd-fynd â'r canllawiau a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, wrth i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, bydd hyn yn ei alluogi i ganolbwyntio ar sut mae'n sicrhau bod amcanion corfforaethol wedi'u cyflawni ac yn darparu dull o adolygu'r trefniadau llywodraethu sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn y dyfodol. |

**28.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2012, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

29. Cwblhawyd fy archwiliad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd ar 10 Ionawr 2013 a chyhoeddwyd adroddiad diamod archwiliwr.

## Mae amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd yn lleihau'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol ac roedd ei systemau ariannol pwysig yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu fel y bwriadwyd er bod rhai meysydd i'w gwella.

30. Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r systemau ariannol a'r rheolaethau mewnol er mwyn asesu a ydynt yn rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol.

31. Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r meysydd gwaith a'r canfyddiadau allweddol, rwyf wedi'u cynnwys mewn nifer o adroddiadau gwahanol a drafodwyd â'r Pwyllgor Archwilio.

Arddangosyn 2: Systemau a rheolaethau ariannol

| Maes a adolygwyd | Canfyddiadau |
|---|---|
| Archwiliad mewnol | Mae gwasanaeth archwilio mewnol y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â nodau'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y GIG yng Nghymru ond mae rhai meysydd allweddol lle mae angen gwneud gwelliannau. Yn benodol:<br>• datblygu siarter archwilio mewnol;<br>• adolygu'r cysylltiadau rhwng Pennaeth yr Archwiliad Mewnol, y Swyddog Atebol a'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn bodloni disgwyliadau'r safon;<br>• cwblhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, y gellir ei ddefnyddio wedyn fel y prif ffocws ar gyfer cyfarwyddo asesiadau risg ac adolygiadau'r archwiliad mewnol yn y dyfodol. |
| Rheolaeth gyllidebol | Mae rheolaeth gyllidebol yn effeithiol, gyda phrosesau pennu cyllidebau boddhaol a threfniadau monitro ac adrodd effeithiol. Bydd angen ystyried argymhellion yr archwiliad mewnol sy'n ymwneud â rheoli trosglwyddiadau cyllideb. |
| Prif system gyfrifyddu | Mae cynllun a gweithrediad y rheolaethau o fewn y brif system gyfrifyddu yn ddigonol i'n galluogi i ddibynnu arnynt. Fodd bynnag, mae meysydd lle yr argymhellwyd y dylid gwneud gwelliannau yn adroddiad yr Archwiliad Mewnol ar *Rheolaeth Gyllidebol a Chyfriflyfr Cyffredinol*. Yn benodol:<br>• mae angen diweddaru'r rhestr o lofnodwyr awdurdodedig;<br>• mae angen dileu codau cyfriflyfr nas defnyddiwyd;<br>• dylai fod tystiolaeth glir bod cysoniadau'r cyfrifon rheoli wedi cael eu gwirio a'u hadolygu. |

| Maes a adolygwyd | Canfyddiadau |
|---|---|
| Rheolaethau cyffredinol TG | Nid wyf wedi nodi unrhyw faterion o fewn y seilwaith TG sy'n debygol o arwain at gamddatganiad perthnasol mewn unrhyw systemau dibynnol. Fodd bynnag, mae rhai materion sylweddol y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn lleihau'r risg o fethiannau yn y dyfodol, sy'n dal i gael eu hystyried yn dilyn adroddiad mis Tachwedd 2011 – *Adolygiad o'r Trefniadau Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes o ran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)*. |
| Systemau ariannol pwysig | Mae'r rheolaethau mewnol yn y systemau ariannol yn ddigonol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i argymhellion yr archwiliad mewnol. Fodd bynnag, mae angen gwell dull o asesu costau hawliadau Gofal Iechyd Parhaus, ôl-weithredol a rhoi cyfrif amdanynt. |
| Atal a chanfod twyll a llygredd | Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer atal twyll mewn meysydd risg uchel yn foddhaol. |
| Gwasanaethau contractwyr | Roeddwn yn gallu cadarnhau y gall archwilwyr byrddau iechyd roi sicrwydd ar addasrwydd, cynllun ac effeithiolrwydd gweithredol rheolaethau, ar yr amod y gwneir rhywfaint o waith ychwanegol sy'n ymwneud â'r system ddeintyddol yng Ngogledd Cymru.<br>Mae'r rheolaethau yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan ond ceir rhai risgiau y bydd angen i Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (NWSSP) eu hystyried o ran system NHAIS (technoleg gwybodaeth). Anfonwyd fy adroddiad ymlaen i dîm archwilio Ymddiriedolaeth GIG Felindre er mwyn iddo wneud gwaith dilynol arno nawr bod y gwasanaethau wedi'u trosglwyddo i NWSSP. |
| Polisïau a gweithdrefnau | Mae cofrestr risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd a gwaith a wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol ac allanol yn nodi bod angen adolygu, diweddaru a chymeradwyo nifer o bolisïau a gweithdrefnau. Mae llawer bellach wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiad adolygu penodedig ac mae'n hanfodol y caiff yr adolygiadau hyn eu cwblhau cyn gynted â phosibl. |

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2011-12, ond dim ond ar ôl cael arian untro ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru; o ganlyniad cyhoeddais adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'n barn archwilio

**32.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, aeth y Bwrdd Iechyd i wariant net o £252.556 miliwn. Y terfyn adnoddau terfynol oedd £252.586 miliwn, a oedd yn cynnwys swm ychwanegol o £3.9 miliwn y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2012. Roedd hyn yn golygu y byddai'r Bwrdd Iechyd wedi mynd uwchlaw ei derfyn adnoddau os na fyddai wedi cael y swm ychwanegol o £3.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn atal hyn rhag digwydd. I bob diben, cynyddodd Llywodraeth Cymru y terfyn adnoddau ym mis Mawrth 2012 er mwyn cyd-fynd â gwariant blynyddol net y Bwrdd Iechyd.

**33.** Er bod y Bwrdd Iechyd wedi osgoi'r angen i amodi fy marn rheoleidd-dra yn 2011-12, mae bellach yn wynebu her ariannol anos fyth yn 2012-13. Mae dyraniad 2012-13 £3.9 miliwn yn llai nag y byddai wedi bod fel arall ac, o ganlyniad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau arbedion ychwanegol er mwyn cau'r bwlch rhwng yr adnoddau a

dyrannwyd iddo a'i batrwm gwario sylfaenol. Mae cynllun ariannol interim y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13 yn rhagweld, ym mis Ebrill 2012, y bydd bwlch ariannu o £8.1 miliwn (gan gynnwys effaith y penderfyniad i ddefnyddio arian o 2012-13 yn gynnar ym mis Mawrth 2012).

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**34.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi cynnal amrywiaeth o adolygiadau archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw.

**35.** Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig gyda phwyslais penodol ar gadernid y fframwaith sicrwydd cyffredinol;
- defnyddio gwaith adnoddau drwy'r asesiad strwythuredig, a'm rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol;
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol.

**36.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae dull cyffredinol y Bwrdd Iechyd o lywodraethu wedi datblygu yn ystod y flwyddyn, ond nid yw'n ddigon cadarn eto i roi sicrwydd y gellir cyflawni'r newidiadau strategol i wasanaethau sydd eu hangen yn effeithiol ac o fewn amserlen briodol

### Er bod y trefniadau llywodraethu a sicrwydd wedi'u gwella dros y 12 mis diwethaf, mae lle o hyd i'w hatgyfnerthu ymhellach

**37.** Ers fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi symleiddio strwythur ei bwyllgorau fel ei fod yn fwy cymesur â maint a chymhlethdod y sefydliad. Gyda threigl amser, dylai hyn wella cydlyniant, cysondeb a llifau sicrwydd i'r Bwrdd.

**38.** At hynny, mae'r pwyllgorau allweddol naill ai wedi cymryd camau i atgyfnerthu eu heffeithiolrwydd, neu maent wrthi'n gwneud hynny. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi datrys ei broblem o ran cyfarfodydd digworwm ac mae hefyd wedi cwblhau ymarfer cynllunio sicrwydd i ddatblygu cynllun gwaith sy'n cysylltu â chynllun blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn goruchwylio gweithgarwch rheoli digwyddiadau clinigol yn briodol, ac yn nodi ble mae angen gwneud gwelliannau pellach o ran sicrwydd clinigol.

**39.** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal asesiadau blynyddol o effeithiolrwydd ac yn fuan bydd yn cynnal adolygiad pellach er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion presennol y sefydliad a gofynion Llawlyfr diwygiedig y Pwyllgor Archwilio. Dylai'r ymarferion hunanasesu a chynllunio gwaith ddarparu gwell sicrwydd i'r Bwrdd o ran risgiau parhaus a gweithredol.

**40.** Tra bod y datblygiadau hyn yn helpu i atgyfnerthu fframwaith sicrwydd cyffredinol y Bwrdd, nid yw'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud ag agenda newid y Bwrdd Iechyd wedi'u datblygu'n ddigonol eto. Mae cysylltiad amlwg rhwng hyn a'r angen i oruchwylio'r her ariannol gynyddol, y gwaith o foderneiddio gwasanaethau a'r broses o atgyfnerthu safbwynt y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau a gomisiynwyd ymellach.

**41.** Bydd angen i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gyflawni newidiadau yn gyffredinol yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf. Mae angen i'r trefniadau llywodraethu addasu i'r newidiadau hyn, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod system lywodraethu briodol ar waith i gefnogi, herio a rhoi sicrwydd o ran ei raglenni newid, ei brosesau moderneiddio a'i flaenoriaethau tymor hwy. Fel y mae pethau, nid yw trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn ddigon cadarn i roi sicrwydd bod gwelliannau yn cael eu gwneud mor gyflym ag sydd eu hangen a bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy.

**42.** Mae bellach yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio a chyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n golygu bod angen mabwysiadu dull diwygiedig o lywodraethu. Ceir tri newid pwysig mewn pwyslais rhwng y datganiad blaenorol ar reolaeth fewnol a'r gofynion o ran y datganiad llywodraethu blynyddol:

- dylai'r gofynion llywodraethu a sicrwydd diffiniedig fod yn seiliedig ar asesiad sefydliadol o fygythiadau a rhwystrau i gyflawni amcanion, nodau a blaenoriaethau corfforaethol;
- bydd yr ystod o ddarparwyr sicrwydd yn ymestyn y tu hwnt i ffurfiau traddodiadol a ffurfiol ar sicrwydd a gallant, er enghraifft, gynnwys gwaith arbenigwyr, ymgynghorwyr neu gyrff adolygu eraill;
- dylai'r broses o lunio datganiad llywodraethu blynyddol fod yn un barhaus yn hytrach nag ymarfer ar ddiwedd y flwyddyn; dylai fod yn adnodd i helpu i gyflawni amcanion, blaenoriaethau a nodau corfforaethol a rhoi sicrwydd ynghylch y risgiau a'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran eu cyflawni.

**43.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio ei ddatganiad llywodraethu blynyddol ac wedi'i gyhoeddi yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2011-12. Hysbyswyd y Bwrdd Iechyd am y gofyniad i gyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol gan Lywodraeth Cymru heb fawr o rybudd, a oedd yn golygu ei bod yn anodd iddo newid yn sylweddol y prosesau presennol a oedd wedi'u defnyddio i lunio'r datganiad ar reolaeth fewnol. Fodd bynnag, yn y dyfodol, byddai'r Bwrdd Iechyd yn elwa o fabwysiadu dull gweithredu parhaus sy'n cysylltu ei ddatganiad llywodraethu blynyddol yn agosach â blaenoriaethau corfforaethol a'r risgiau a'r rhwystrau a allai eu hatal rhag cael eu cyflawni. Mae hon yn rhan bwysig o Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Gwnaethom argymell y llynedd fod angen i'r Bwrdd Iechyd roi Fframwaith Sicrwydd ar waith, ond prin fu'r cynnydd.

**44.** Mae'r trefniadau rheoli risg yn y Bwrdd Iechyd yn hanesyddol wedi cynnwys rhai gwendidau. Nododd y gwaith gan yr archwiliad mewnol a gyhoeddwyd yn gynharach eleni nifer o feysydd i'w gwella y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig eleni wedi ystyried yn bennaf drefniadau rheoli risg strategol y Bwrdd Iechyd.

**45.** Rwyf wedi nodi gwelliannau i weithgarwch rheoli risg strategol ar ffurf:

- llinellau atebolrwydd cliriach ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Risg, sy'n bellach yn atebol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr;
- gwella perchenogaeth o risgiau;
- gwell prosesau ar gyfer rheoli a lliniaru risg;
- cofrestr risg gorfforaethol fwy cryno sy'n helpu'r Bwrdd i ganolbwyntio ar feysydd risg allweddol

**46.** Fodd bynnag, nid oes unrhyw asesiadau risg penodol o ran cyflawni amcanion corfforaethol, a dyma faes y mae angen rhoi sylw iddo er mwyn helpu i nodi a dileu rhwystrau i gyflawni'r nodau sefydliadol.

**47.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen parhaus i sicrhau bod trefniadau rheoli risg yn addas at y diben. Nodaf y bydd yr Archwiliad Mewnol yn gwneud gwaith dilynol fel rhan o'i gynllun archwilio cyfredol, er mwyn nodi'r cynnydd a wnaed yn fanylach.

**48.** Fel rhan o'm gwaith eleni, rwyf wedi asesu'r defnydd o wybodaeth reoli gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae fy nghanfyddiadau (a nodir yn Atodiad 3) yn nodi, at ddibenion cyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu, fod gwybodaeth reoli yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae lle i wella mewn rhai meysydd allweddol, yn bennaf o ran cynhyrchu gwybodaeth reoli sy'n canolbwyntio'n fwy penodol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni nodau strategol lleol yn effeithiol.

### Er bod dull rheoli strategol y Bwrdd Iechyd yn gwella, nid yw'n ddigon effeithiol eto i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen o fewn yr amserlen ofynnol

**49.** Y llynedd, nodais pa mor bwysig oedd penodiad ffurfiol y Prif Weithredwr yn dilyn y trefniadau interim blaenorol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi unigolion i nifer o swyddi gweithredol, parhaol eraill. Mae hyn yn cynnwys y Cyfarwyddwr Nyrsio, y Cyfarwyddwr Therapïau, y Cyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

**50.** Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi penodi rhywun i swydd y Cyfarwyddwr Cynllunio ac Iechyd y Cyhoedd eto. Mae Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd dros dro a Chyfarwyddwr Cynllunio dros dro yn cyflawni'r swydd bwysig hon ar hyn o bryd, y mae angen ei llenwi fel mater o frys. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi bellach yn recriwtio i'r swydd hon.

**51.** Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun blynyddol yng nghyfarfod y Bwrdd ar 18 Ebrill 2012. Mae'r cynllun hwn yn welliant o gymharu â blynyddoedd blaenorol am ei fod yn dirprwyo camau gweithredu byrdymor yn gliriach i gyfarwyddwyr gweithredol. Fodd bynnag, mae angen i'r gwaith cynllunio corfforaethol ddatblygu nawr i'r pwynt lle mae'r tîm Gweithredol yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwella, ond yr ardaloedd a'r cyfarwyddiaethau sy'n llunio'r cynllun.

**52.** Yn fy marn i, yn y dyfodol, bydd angen i'r Tîm Gweithredol wahaniaethu'n gliriach rhwng y canlynol:

- ei gyfrifoldebau strategol, ar y cyd fel y Tîm Gweithredol;
- ei gyfrifoldebau o ran gweithwyr iechyd proffesiynol, lle ceir rôl arwain o fewn y proffesiwn iechyd ar gyfer rhai cyfarwyddwyr gweithredol;
- rolau ei gyfarwyddwyr gweithredol o ran helpu rheolwyr ardaloedd a chyfarwyddiaethau i gyflawni eu rhaglenni newid.

**53.** Mae Arddangosyn 3 yn nodi materion y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy.

Arddangosyn 3: Y dull rheoli strategol; materion y mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu hystyried

| **Materion i'w hystyried** | |
|---|---|
| Dylunio strategol | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio'r trefniant rheoli ardaloedd er mwyn atgyfnerthu prosesau cyflawni. Wrth wneud yr ymrwymiad hwn, mae angen i gyfarwyddwyr gweithredol nawr ddirprwyo atebolrwydd priodol yn llawn i reolwyr cyffredinol ardaloedd.<br>Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu agwedd strategol tymor hwy, pennu canlyniadau, datblygu ei fframwaith a blaenoriaethau corfforaethol penodol ac wedyn ddarparu'r system briodol i ddwyn ardaloedd a chyfarwyddiaethau i gyfrif, gan hwyluso a chefnogi'r gwaith o'u gwella. |

| Materion i'w hystyried | |
|---|---|
| Cynllunio strategol | Mae cynllun blynyddol yn cwmpasu cyfnod rhy fyr i ddarparu'r fframwaith strategol angenrheidiol i gyflawni'r newidiadau i wasanaethau sydd eu hangen. Mae angen newid i gynlluniau strategol tymor hwy am y rhesymau canlynol:<br>• anaml y caiff rhaglenni cyfalaf eu cyflawni mewn un flwyddyn;<br>• mae prosiectau moderneiddio gwasanaethau yn aml yn cymryd sawl blwyddyn, gyda buddsoddiad ymlaen llaw mewn un flwyddyn yn sicrhau arbedion parhaus, hirdymor mewn blynyddoedd dilynol;<br>• gall y cynllun blynyddol a arweinir gan swyddogion gweithredol fod yn rhwystr i ddirprwyo cyfrifoldeb ac atebolrwydd a chymryd risgiau yn bwyllog, oherwydd bydd gan ardaloedd well dealltwriaeth o risgiau lleol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a newid;<br>• nid yw'n helpu i hwyluso dull gweithredu cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar raglenni a phrosiectau. |
| Fframwaith rheoli newid | Newydd ddechrau ar y gwaith o ddatblygu methodoleg rhaglenni a chymorth swyddfa i raglenni y mae'r Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd yn anodd gweithredu'r rhaglen waith ofynnol, a hefyd mesur cyflymder, cost ac effeithiolrwydd y newidiadau a wnaed. Mae'r Tîm Gweithredol yn cydnabod bod angen mabwysiadu dull rheoli rhaglenni a bydd yn ei gyflwyno dros y 12 mis nesaf. |

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu ei drefniadau cyflenwi, ond nid yw'r broses o foderneiddio a newid yn cadw'n wastad â'r pwysau sy'n ei wynebu eto

### Dylai model rheoli ardaloedd y Bwrdd Iechyd helpu i wella gwasanaethau, ar yr amod y caiff cyfrifoldebau eu dirprwyo'n briodol ac yn glir i'r ardaloedd

**54.** Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn llwyr ymrwymedig i'r model tair ardal, sy'n rhannu Powys yn dair ‘uned fusnes’ ar gyfer gogledd, canol a de Powys. Ochr yn ochr â'r ardaloedd hyn mae gan y Bwrdd Iechyd ddwy gyfarwyddiaeth, y naill ar gyfer Gwasanaethau Merched a Phlant a'r llall ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**55.** O gofio maint Powys a'r llwybrau cleifion a'r darparwyr daearyddol, amrywiol, dylai model sy'n seiliedig ar ardaloedd ddarparu sail gadarn i reoli busnes ac effeithiolrwydd gofal cleifion. Derbynnir y gall gymryd peth amser i strwythur, gallu ac adnoddau'r ardaloedd ddatblygu'n llawn.

**56.** Fodd bynnag, er mwyn i'r strwythur hwn weithio, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff cyfrifoldeb ac ymreolaeth eu dirprwyo'n briodol i'r ardaloedd, gyda llinellau atebolrwydd clir yn ôl i'r prif Fwrdd. At hynny, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fonitro ai cynnal cyfarwyddiaethau ar wahân ochr yn ochr â'i ardaloedd yw'r ffordd orau o gyflawni ei nodau, neu a yw integreiddio swyddogaethau'r cyfarwyddiaethau yn y tair ardal yn fodel mwy priodol. Ar hyn o bryd, gall y strwythur arwain at rwystrau rhyngadrannol i welliant.

Gwelwyd nifer o welliannau o ran y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, ond mae angen cyflymu'r newidiadau;

**Newidiadau i wasanaethau**

**57.** Mae rhai arwyddion da o gamau yn cael eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd i ddylanwadu ar batrymau gweithgarwch ac atgyfeirio a'u newid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn fwy hygyrch a chynaliadwy. Er enghraifft:

- mae gwasanaethau podiatrig yn ehangu yn Llandrindod, sy'n golygu bod llai o alw am ofal drud a ddarperir y tu allan i'r sir;
- mae cynlluniau yn datblygu ar gyfer llawdriniaethau cleifion allanol a llawdriniaethau achosion dydd - orthopedeg, offthalmoleg, llawdriniaethau cyffredinol risg isel a rhewmatoleg;
- mae gwasanaethau arennol newydd ar gael yn Ardal y Gogledd.

**58.** Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau yn cael eu trawsnewid yn ddigon cyflym eto i gyd-fynd â'r pwysau ariannol cynyddol nac ymateb i'r galw am ofal iechyd o du cleifion. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd y Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb heb arian ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd y sefyllfa ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd wneud penderfyniadau anodd ynghylch perfformiad o ran darparu gwasanaethau.

**59.** Mae newid a buddsoddi ar lefel yr ardal yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy yn y tymor hwy. Mae cael gwell gwybodaeth, blaenoriaethu clir ac ymgysylltu mewnol ac allanol da ar lefel leol yn allweddol i sicrhau bod hyn yn effeithiol. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd bob un o'r ffactorau galluogi hyn ar waith fel mater o drefn.

**60.** Mae angen i'r Bwrdd Iechyd allu ariannu prosiectau newid gwasanaethau lle y bydd y buddsoddiad a wneir mewn un flwyddyn yn ei gwneud yn bosibl i sicrhau arbedion ariannol gwirioneddol mewn blynyddoedd dilynol. Mae cynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru yn rhoi'r hyblygrwydd hwn ac yn cael ei ddefnyddio mewn prosiectau moderneiddio gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus eraill.

### Rheoli newid

**61.** Rwyf wedi nodi bod rheoli newid yn faes risg yn fy nau adolygiad blaenorol o'r asesiad strwythuredig, ac mae'n arwydd cadarnhaol bod y Bwrdd Iechyd yn dechrau creu rhywfaint o strwythur o ran ei ddull o reoli newid. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud eleni wedi dangos mai'r agweddau ar reoli newid y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio arnynt yw:

- atgyfnerthu sgiliau rhaglenni a phrosiectau, gallu a pherchenogaeth yn yr ardaloedd a'r cyfarwyddiaethau;
- hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhaglenni i ardaloedd/cyfarwyddiaethau a datblygu cynlluniau cadarn sy'n nodi canlyniadau prosiectau, cynllun llwybrau â modelau gwasanaeth diffiniedig, anghenion ymgysylltu rhanddeiliaid, cyfrifoldebau, camau gweithredu, costau, y manteision i gleifion, y manteision ariannol ac amserlen realistig ar gyfer cyflawni;
- hwyluso'r gwaith o ddatblygu model ar gyfer goruchwylio, herio a chefnogi rhaglenni strategol gweithredol;
- llunio fframwaith llywodraethu i roi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd a chyflymder newidiadau, fel y nodwyd yn flaenorol.

**62.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau canolbwyntio ar fodelau newid sy'n defnyddio trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau, ond mae angen iddo sicrhau, yn ystod y 12 mis nesaf, fod y trefniadau yn cael eu datblygu'n ddigonol a'u hymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn cyflwyno swyddfa rheoli rhaglenni. Fodd bynnag, gyda dim ond un aelod parhaol o staff, nid yw'n glir pa mor dda y bydd y fenter hon yn cefnogi gwelliant.

### Cynllunio'r gweithlu

**63.** Gwelwyd gwelliannau amlwg yn y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'r gweithlu. Pan wneuthum fy ngwaith y llynedd, roedd gweithgarwch cynllunio'r gweithlu yn datblygu ar lefel gorfforaethol a nodwyd gwaith dadansoddi corfforaethol da. Bryd hynny, fodd bynnag, nid oedd gan y cynlluniau y wybodaeth fanwl sydd gan fodelau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol na chynlluniau gweithredu clir.

**64.** Mae gwaith cynllunio'r gweithlu eleni wedi canolbwyntio mwy ar yr ardal leol ac mae wedi dechrau rhagweld yn well anghenion gwasanaethau o ran y gweithlu yn y dyfodol. Mae hyn yn welliant.

**65.** Mae Powys yn Fwrdd Iechyd addysgu ac mae'r tîm rheoli wedi trafod ffocws gweithgarwch addysgu a datblygu a sut i'w gyflawni. Saif y Bwrdd Iechyd mewn man braidd yn ddiarffordd i ffwrdd o ganolfannau trefol prysur a chanolfannau addysg a gallai fod yn anos i staff fanteisio ar rai agweddau ar ddatblygiad proffesiynol a phrofiad. Gallai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu'n sefydliad ystwyth a all addasu i'w amgylchedd heriol a newidiol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei weithlu a buddsoddi ynddo mewn ffordd sy'n sicrhau bod staff yn ysgogi ac yn arwain gwelliant. Er mwyn gwneud hyn, mae'n debyg y bydd angen datblygu

profiad a sgiliau proffesiynol, sgiliau rheoli busnes yn ogystal â sgiliau arwain a rheoli newid.

### Ymgynghori ac ymgysylltu

**66.** Nododd fy ngwaith blaenorol mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig fod ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid yn hanfodol i weithredu cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus. Roedd hyn yn bwysig bryd hynny, pan oedd y sefydliad yn datblygu ei weledigaeth, ac mae'n bwysicach fyth nawr ar adeg pan fo'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn datblygu llwybrau a gwasanaethau sy'n dibynnu ar lwybrau a gwasanaethau eraill.

**67.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y risgiau a'r heriau sy'n ei wynebu, megis:

- darparwyr gofal iechyd acìwt y tu allan i'r sir sy'n paratoi ar gyfer newidiadau yn eu modelau gofal iechyd eu hunain, a fydd yn effeithio ar lwybrau poblogaeth Powys;
- gwasanaethau newydd ym Mhowys a gwasanaethau y cynigiwyd y dylid eu symud yn ôl i'r sir sy'n gofyn am ymrwymiad gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd cyfagos i ddarparu gwasanaethau allgymorth a threfniadau llywodraethu clinigol;
- pwysau a newidiadau yng Nghyngor Sir Powys a sefydliadau trydydd sector.

**68.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y risgiau strategol hyn ac mae'n cymryd camau rhagweithiol i ymgysylltu â gwasanaethau mewnol a hefyd fel rhan o ymgynghoriadau eraill a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd.

**69.** Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ymgynghori'n ffurfiol ar wasanaethau yn Ne-ddwyrain Powys. Er bod yr ymgynghoriad ond yn ymwneud â newid bach mewn gwasanaethau, mae'n bwysig i'r gymuned a phartneriaid bod y broses ymgynghori yn un agored ac ymatebol. Mae'n debyg mai dull presennol y Bwrdd Iechyd o gyflawni gweithgarwch ymgysylltu lleol ar gyfer cymunedau lleol fydd yr un mwyaf effeithiol.

**70.** Mae'n rhy gynnar rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd y dulliau ymgynghori a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd, ond mae'n gadarnhaol nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi asesu ei fod yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau ymgynghori Llywodraeth Cymru.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn ystod y flwyddyn wedi dangos rhai datblygiadau cadarnhaol, yn ogystal â rhai meysydd penodol sydd angen eu gwella

**71.** Mae Arddangosyn 4 yn nodi canfyddiadau allweddol gwaith archwilio perfformiad a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Arddangosyn 4: adolygiadau o archwiliadau perfformiad

| **Adolygiadau o archwiliadau perfformiad yn 2012** |
|---|
| **Rheoli cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu**<br>*Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld rhai datblygiadau cadarnhaol ond bydd angen cymryd camau pellach mewn nifer o feysydd allweddol er mwyn trawsnewid gwasanaethau yn llwyr, a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar y sector acìwt.* |
| Er bod y weledigaeth strategol ar gyfer cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu wedi'i nodi ac fe'i hategir gan gynlluniau gweithlu lefel uchel, nid oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ariannol na threfniadau cynllunio cadarn ar gyfer y gwasanaethau hyn. Yn benodol:<br>• er mwyn gwireddu gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu bydd angen gwella'r trefniadau cynllunio a rheoli;<br>• mae'r strwythurau rheoli a'r ffaith nad oes unrhyw wybodaeth gynhwysfawr yn gwanhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella gwasanaethau cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu; ac<br>• ceir trefniadau cadarnhaol ar gyfer cynnwys meddygon teulu a rhanddeiliaid eraill yn fewnol ac yn allanol er bod angen sicrhau mwy o gyfranogiad gan feddygon ymgynghorol a phartneriaid yng ngweddill y GIG. |
| **Ansawdd data**<br>*O linell sylfaen isel, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella trefniadau i sicrhau bod data yn ddilys ac yn gywir, ond mae angen i'r trefniadau hyn fod yn fwy ffurfiol a chynnwys dulliau o roi sicrwydd.* |
| Mae Byrddau Iechyd yn dibynnu ar wybodaeth i gefnogi gwasanaethau cyflenwi a nodi pa mor dda y maent yn darparu neu'n comisiynu gwasanaethau. Mae ansawdd data yn bwysig i sicrhau bod gwybodaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd yn addas at y diben. Nododd ein hadolygiad o drefniadau ansawdd data'r Bwrdd y canlynol:<br>• mae uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd data ond mae angen i drefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd data gael eu datblygu ymhellach;<br>• mae gweithdrefnau a phrosesau digonol ar waith o ran ansawdd data, ond mae angen ffurfioli'r polisi a chryfhau trefniadau adolygu ac archwilio;<br>• mae ansawdd setiau data gweithredol allweddol yn ddigonol ac mae wedi gwella dros y 12 mis blaenorol, ond mae rhai meysydd i'w gwella. |
| **Comisiynu**<br>*Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wella gweithgarwch comisiynu ac mae'n canolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau* |

## Adolygiadau o archwiliadau perfformiad yn 2012

Nododd fy Asesiad Strwythuredig blaenorol fod dull y Bwrdd Iechyd o gyflawni ei weledigaeth i foderneiddio gwasanaethau yn datblygu ac yn arwain at welliant.

Ym mis Mawrth 2012, hwylusodd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ei phen ei hun, weithdy a fynychwyd gan aelodau o'r Bwrdd Gweithredol.

O ganlyniad i'r sesiwn honno nodwyd bod angen gwella'r wybodaeth i ategu gwaith comisiynu effeithiol, bod cydnabyddiaeth gryfach bod comisiynu yn ffordd o ddatblygu canlyniadau, cynllunio llwybrau a sicrhau canlyniadau i gleifion, a bod contractio gwasanaethau ond yn rhan o'r broses ehangach hon. Mae'r Tîm Gweithredol wrthi'n gwneud gwaith ychwanegol i ddiffinio'r swyddogaeth gomisiynu a chamau gwella.

**Gwasanaethau rheoli gwybodaeth a thechnoleg**

*Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu problemau hirsefydlog o ran effeithiolrwydd ei wasanaethau rheoli gwybodaeth a thechnoleg, ond dylai cyflwyno cytundeb Adran 33 â Chyngor Sir Powys sicrhau mwy o gadernid a darparu gwell sylfaen ar gyfer datblygu yn y dyfodol*

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran gweithredu ein hargymhellion blaenorol ynghylch gwasanaethau rheoli gwybodaeth a thechnoleg. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn araf a bydd hyn yn cyfyngu ar y defnydd y gellir ei wneud o dechnoleg i alluogi gwasanaethau gofal iechyd effeithlon, modern:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno trefniadau a strategaeth newydd ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau strategol o ran rheoli gwybodaeth a thechnoleg ond mae gwaith goruchwylio a chraffu annibynnol ar gyfer rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn dal i fod yn annigonol;
- er bod yr arian ar gyfer rheoli gwybodaeth a thechnoleg wedi cynyddu, nid yw'n cyd-fynd o hyd â chynlluniau strategol i ddarparu gwasanaethau rheoli gwybodaeth a thechnoleg cynaliadwy a helpu i wella gwasanaethau iechyd;
- mae'r trefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn datblygu ond nid oes digon adnoddau staff gweithredol i helpu i sicrhau gwelliant cynaliadwy.

Ers y gwaith dilynol, y cyflwynwyd adroddiad arno ym mis Mawrth 2012, mae'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth gyfreithiol gyfrwymol, sy'n cynnwys cyflwyno adran Technoleg Gwybodaeth integredig. Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor y cytundeb yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2012.

Mae'r partneriaid bellach wedi llunio cyllidebau cyfun a chyllidebau arweiniol a cheir rhaglen waith glir a phenodol i adeiladu sylfeini adran TGCh integredig yn ogystal â nifer fach o brosiectau seilwaith.

Gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd, ond cafwyd oedi hefyd mewn meysydd megis integreiddio timau. Ar adeg yr adolygiad hwn, dim ond ar ôl i'r cytundeb Adran 33 ddod i rym roedd swyddogaeth lywodraethu'r cytundeb Adran 33 (y bwrdd partneriaeth ar y cyd) wedi cyfarfod, ac ni allwn roi sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraeth TGCh newydd eto.

**Trefniadau Caldicott**

*Nid oes trefniadau ar waith yn llawn i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cyfrinachedd gwybodaeth fel y'u nodir yn llawlyfr Caldicott, ond mae'n gweithio i unioni'r diffygion*

| Adolygiadau o archwiliadau perfformiad yn 2012 |
| --- |
| Mae rhai gwendidau yn nhrefniadau Caldicott y Bwrdd Iechyd ond mae'n rhoi'r trefniadau rheoli a chynllunio angenrheidiol ar waith i fodloni gofynion Caldicott. Mae prosesau a pholisïau ar waith i helpu i gydymffurfio ag egwyddorion Caldicott, ond mae angen i hyfforddiant a chydymffurfiaeth ag anghenion polisi ddatblygu ymhellach. Ychydig o waith goruchwylio annibynnol a wneir o ran trefniadau Caldicott, ond mae gan swyddogion gweithredol gyfrifoldebau clir ac maent yn awyddus i wella trefniadau. Bydd angen i'r is-bwyllgor llywodraethu gwybodaeth roi sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â'r cynnydd a wnaed. |

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13 ac mae cynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy yn cael eu datblygu o hyd

### Mae adroddiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu'n gywir y trafodion yn ystod y flwyddyn

**72.** Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi ei sefyllfa ariannol bob mis, gyda rhagamcan o'r sefyllfa debygol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddir gwybod am y sefyllfa ariannol i bob cyfarfod o'r Bwrdd hefyd.

**73.** Mae gwaith mewn perthynas â rheolaeth gyllidebol a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cadarnhau bod y ffurflenni monitro misol ac adroddiadau'r Bwrdd yn dangos yn gywir y trafodion incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn heb gael incwm ychwanegol neu gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol ei fyrddau a'i ymddiriedolaethau iechyd sy'n ddarparwyr ac, yn y byrdymor, ar amseroedd aros cleifion

**74.** Nododd cynllun ariannol interim 2012-13, a baratowyd i'w gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2012, nifer o heriau ariannol ar gyfer y flwyddyn, sef:

- bwlch cynllunio ariannol o £2.9 miliwn nas datryswyd yn 2011-12 a oedd yn cael ei gario drosodd;
- dileu £1.7 miliwn o arbedion, a sicrhawyd yn 2011-12, ond a oedd yn arbedion ‘untro’ a wnaed yn ystod y flwyddyn;
- costau twf mewn gweithgarwch yn 2011-12, o £5.5 miliwn nas cynhwyswyd yn y cyllidebau gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn honno;
- pwysau costau'r flwyddyn newydd yn cyfateb i £5.1 miliwn.

**75.** Hefyd, roedd yn rhaid didynnu'r £3.9 miliwn a hawliwyd yn gynnar yn 2011-12 o'r adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer 2012-13, gan roi cyfanswm her ariannol a oedd yn cyfateb i £19.1 miliwn. Nodwyd cynlluniau adfer ariannol cychwynnol gwerth £11.0 miliwn, gan adael bwlch ariannu o £8.1 miliwn.

**76.** Ystyriodd y Bwrdd gynllun ariannol diwygiedig ym mis Mehefin 2012, lle y gellid gwneud arbedion pellach o rhwng £1.5 a £5 miliwn. Pe cyflawnid potensial llawn yr arbedion hyn, byddai'r Bwrdd yn wynebu diffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £3.1 miliwn.

**77.** Dangosodd adroddiad ariannol mis 6 orwariant yn erbyn costau cyllidebol (gan gynnwys arbedion y cynllun adfer ariannol) o £5.2 miliwn ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn, gyda 'rhychwant' o risgiau o fewn y sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn lawn sy'n cyfateb i ddiffyg o rhwng £5.0 a £13.0 miliwn. Rhagwelwyd y byddai diffyg alldro ar ddiwedd y flwyddyn o £8.8 miliwn.

**78.** Erbyn hyn prin yw'r opsiynau yn y byrdymor a fydd yn sicrhau'r arbedion sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb yn 2012-13.

**79.** Ym mis Medi 2012 ystyriodd y Bwrdd gyflymu rhai o'i gynlluniau strategol a defnyddio hyblygrwydd o fewn y targed ar gyfer amseroedd aros hwyaf ar gyfer cleifion, er na welir manteision ariannol y camau gweithredu hyn tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae cynyddu amseroedd aros cleifion ond yn fesur byrdymor, am y bydd angen talu costau'r driniaeth o hyd rywbryd yn y dyfodol.

**80.** Er bod cyfle i newid gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau 'mewnol', eir i bron hanner y costau wrth brynu gofal iechyd gan ddarparwyr eraill. Yn 2011-12, caiff 23 y cant o gyllid y Bwrdd Iechyd ei wario ar ofal sylfaenol (y mae llawer ohono yn seiliedig ar delerau contract y cytunwyd arnynt yn genedlaethol), caiff 28 y cant ei wario ar ei wasanaethau ysbytai a'i wasanaethau cymunedol ei hun (y mae 74 y cant yn cynnwys costau staff) ac mae 49 y cant yn cael ei dalu i sefydliadau allanol sy'n darparu gofal iechyd i gleifion Powys.

**81.** Mae elfen bwysig arall o'r gwaith o wella sefyllfa ariannol y Bwrdd yn dibynnu ar drafodaethau â byrddau iechyd Cymru ac ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr sy'n darparu cryn dipyn o ofal iechyd i gleifion Powys. Mae gwahaniaethau clir rhwng costau cleifion sy'n cael eu trin gan ddarparwyr yn Lloegr a darparwyr yng Nghymru, a rhwng y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae'r gwaith dadansoddi a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn nodi bod contractau fframwaith Cymru yn:

- ddrutach na gofal iechyd a gomisiynir gan ddarparwyr yn Lloegr;
- llai clir, sy'n golygu ei bod yn anos dwyn darparwyr yng Nghymru i gyfrif.

**82.** Pe bai'r taliadau isaf yn cael eu cymhwyso at bob darparwr, mae lle i leihau costau'n sylweddol, ond bydd hyn wedyn yn effeithio ar sefyllfa ariannol y darparwyr gofal iechyd eraill hyn. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal trafodaethau cadarn â darparwyr gwasanaethau er mwyn llwyddo i leihau'r costau hyn. Fodd bynnag, bydd yn anodd sicrhau cytundeb yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni am y bydd llai o incwm gan Bowys yn amharu ar allu byrddau iechyd eraill i fantoli'r gyllideb.

**83.** Efallai y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd ystyried dyfodol ei ystad lle:

- mae ganddo gyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau presennol neu gyfleusterau wedi'u haddasu o fewn y sir i ddod â gwasanaethau yn ôl i Bowys;
- nad yw'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r claf;
- mae ganddo ôl-groniad sylweddol o ran gwaith cynnal a chadw neu lle mae'n wynebu costau cynnal a chadw sylweddol yn y dyfodol;

- mae'n peri risgiau i gleifion a staff o ran iechyd a diogelwch;
- mae'n aneffeithlon ac nid yw'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae nifer fawr o gynlluniau adfer ariannol wedi'u cofrestru fel arbedion posibl yn ystod y flwyddyn ond mae rhaglenni clir i gyflawni'r rhain, er mwyn sicrhau'r manteision tymor hwy, yn dal i gael eu datblygu

**84.** Wrth baratoi ei gynllun blynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi nifer o gynlluniau adfer ariannol (arbedion). Ar gyfer 2012-13, mae ychydig dros 100 o wahanol gynlluniau wedi'u nodi, gyda'r arbedion posibl wedi'u proffilio dros y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn adlewyrchu pryd mae'r arbedion yn debygol o gael eu cyflawni.

**85.** Pennir targedau a chynlluniau ariannol dyheadol, sy'n seiliedig yn aml ar farn lefel uchel o arbedion posibl, ond weithiau ceir diffyg perchenogaeth o ran y cynlluniau hyn neu ni ellir eu cyflawni, yn enwedig o fewn cyfnod cyfyngedig blwyddyn ariannol. At hynny, mae llawer o'r cynlluniau yn cynnwys symiau gwerth isel (mae hanner yn cynnwys £50,000 neu lai). Efallai y bydd cynlluniau arbedion gwerth isel yn gofyn am ymdrech anghymesur i sicrhau arbedion bach.

**86.** Serch hynny, mae rhai arwyddion clir bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud newidiadau (fel y nodwyd yn gynharach) a bod y newidiadau hyn yn arwain at rai gostyngiadau mewn costau.

**87.** Mae'r gofyniad i gyflwyno cynllun blynyddol yn golygu bod llawer o'r gofynion adfer ariannol yn cael eu llywio'n fwy gan yr angen i gyflawni balans ariannol bob blwyddyn na'r angen i sicrhau dyfodol ariannol cynaliadwy yn yr hirdymor.

**88.** Dull strategol Bwrdd Iechyd o weithredu yw rhoi gofal diogel a phriodol yn agosach at y cartref, gyda phwyslais ar ddylanwadu ar batrymau atgyfeirio a llwybrau gofal sy'n cyd-fynd â'r dull hwn o weithredu. Dylai manteision y rhain arwain at gostau is.

**89.** Mae'r strategaeth ariannol yn seiliedig ar ystod o gamau gweithredu, gan gynnwys:

- datblygu a rheoli llwybrau gofal;
- symud gwasanaethau yn ôl i Bowys (a darparwyr eraill yng Nghymru);
- sicrhau'r effeithlonrwydd gweithredol mwyaf posibl;
- gwella swyddogaethau 'swyddfa gefn'.

**90.** Nodwyd y gofyniad i lunio cynlluniau ariannol tymor canolig yn ein hasesiad strwythuredig y llynedd. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi egluro ei strategaeth ariannol, nid yw effaith ariannol newidiadau sydd i'w gwneud i raglenni darparu gwasanaethau wedi'u modelu na'u costio eto o ran lefel y gweithgarwch a gofynion o ran y gweithlu yn y tymor canolig. Nod y Bwrdd Iechyd yw cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd mis Rhagfyr 2012.

**91.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar raglenni a fydd yn integreiddio'r nodau cyfunol o foderneiddio gwasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adolygiad archwilio mewnol | Ebrill 2012 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Gwasanaethau contractwyr | Mehefin 2012 |
| Systemau a rheolaethau ariannol | Gorffennaf 2012 |
| **Adroddiadau /allbynnau archwilio perfformiad** | |
| Trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli gwybodaeth a thechnoleg (IM&T) – gwaith dilynol | Mawrth 2012 |
| Ansawdd data | Mawrth 2012 |
| Comisiynu gofal i gleifion | Mawrth 2012 |
| Trawsnewid y gwaith o reoli gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig | Mehefin 2012 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | Chwefror 2012 |
| Gwasanaethau contractwyr – sicrwydd archwilio i archwilwyr Byrddau Iechyd | Ionawr 2012 |
| Adroddiadau diweddaru ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio | Ar gyfer pob cyfarfod o'r pwyllgor archwilio |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Gwaith dilynol ar wasanaethau iechyd meddwl i oedolion | Tachwedd 2012 |
| Datblygu'r gweithlu | Chwefror 2013 |
| Rhagnodi gan feddygon teulu | Ebrill 2013 |
| Orthopedeg | Ebrill 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £256,162 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr Amlinelliad.

Mae cost y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan yr Uned Gwasanaethau Contractwyr, sef £3,072, wedi'i chynnwys yn y ffi a nodwyd uchod.

# Atodiad 3

## Modiwl gwybodaeth reoli'r asesiad strwythuredig

**Wrth arsylwi'r bwrdd a phwyllgorau, rwyf wedi nodi rhai cryfderau a rhai meysydd i'w hystyried:**

- mae aelodau'r bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol wrth ddehongli gwybodaeth a chraffu a herio ar sail y wybodaeth a gyflwynir iddynt;
- mae aelodau'r bwrdd yn herio ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth yn achos rhwng 10-20 y cant o'r eitemau ar yr agenda;
- mae aelodau'r bwrdd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yn achos tua 10 y cant o'r eitemau ar yr agenda;
- mae aelodau'r bwrdd yn dangos eu bod yn triongli gwybodaeth â'u profiad eu hunain ac yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld â gwahanol safleoedd a siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid;
- gwnaethom arsylwi trafodaethau agored a gonest gyda chyflwyniadau llafar priodol gan reolwyr.
- cadeirir y bwrdd a'r pwyllgorau yn dda;
- mae angen adolygu rôl a swyddogaeth y pwyllgor llywodraethu integredig a'r wybodaeth a gaiff.

**Wrth gynnal arolwg o aelodau'r Bwrdd nodais y canlynol:**

- mae aelodau'r bwrdd o'r farn eu bod yn cael digon o wybodaeth am berfformiad gweithredol, risgiau a materion sy'n ymwneud ag ansawdd a'u bod yn cael y wybodaeth mewn modd amserol;
- mae aelodau'r bwrdd o'r farn eu bod yn cael llai o wybodaeth am farn defnyddwyr am wasanaethau;
- nid oes gan aelodau'r bwrdd bob amser y wybodaeth sydd ei hangen i'w galluogi i gymharu'r Bwrdd Iechyd â byrddau iechyd cyfatebol;
- nid yw aelodau'r bwrdd bob amser mewn sefyllfa i ddylanwadu ar gynnwys y wybodaeth a roddir i'r Bwrdd;
- mae rhai aelodau o'r bwrdd o'r farn bod gormod o fanylion yn y wybodaeth a gânt.

**Wrth gynnal adolygiad dogfennol o wybodaeth a gafwyd gan y bwrdd a'r pwyllgorau:**

- Mae papurau'r Bwrdd yn nodi'n glir y diben a'r camau y mae angen i'r bwrdd neu'r pwyllgor eu cymryd ond gallant fod yn rhy hir neu fanwl.
- Mae bylchau mewn adroddiadau ar berfformiad sy'n ymwneud â chyflawni canlyniadau, cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen strategol, perfformiad darparwyr traws-sector, ansawdd a diogelwch, profiad cleifion, ac effeithlonrwydd. Yn fy asesiad strwythuredig blaenorol, argymhellais nifer o welliannau, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn llawn i'r rhain eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu gwybodaeth am berfformiad, y mae a wnelo'n fwy ag amcanion lleol, ac mae wrthi'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Ar hyn o bryd, mae'r adroddiadau ar berfformiad a gyflwynir yn annhebygol o ddiwallu anghenion y Bwrdd Iechyd yn llawn, ond mae'n galonogol bod mwy a mwy o sylw yn cael ei roi i ganlyniadau.
- Ceir dadansoddiadau cyd-destunol rhesymol o faterion yn adroddiadau'r Bwrdd.
- Byddai agenda'r Bwrdd yn elwa o roi mwy o sylw i flaenoriaethau, amcanion a chanlyniadau lleol.
- Nid yw'r bwrdd na'r pwyllgorau yn cael, mewn modd effeithiol, wybodaeth sy'n eu galluogi i herio, cefnogi a goruchwylio'r rhaglen newid yn effeithiol.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk